

Ffordd Ddosbarthu'r Morfa – Cam 2, Adroddiad Cynnydd 2

Priffyrdd a Chludiant

Mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu'n dda ar gam diweddaraf prosiect Ffordd Ddosbarthu'r Morfa, gyda gwaith adeiladu'r ffordd gerbydau o flaen yr amserlen. Efen allweddol y prosiect yw adeiladu'r wal gynnal, goncrit, fawr i gynnal y briffordd uwch ben. Yn y pendraw, bydd y strwythur yn cael ei orchuddio mewn gwaith maen sydd wedi'i arbed i gynnal cymeriad amgylchedd y gwaith copr.

Mae'r llun isod yn dangos y cynnydd hyd yn hyn.

Mae ailddatblygu hen iard Hasties ym mhen gogleddol Heol y Morfa yn safle preswyl ar fin dechrau, gan amlygu potensial coridor glan yr afon ar gyfer ailddatblygu'r ardal. Gobeithio y bydd hyn yn enghraifft gynnar o sut gall y ffordd fod yn gatalydd ar gyfer cyfleoedd buddsoddi ar hyd coridor glan yr afon.

Bu Chris Crauford, cadeirydd Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru, yn ymweld â'r safle'n ddiweddar fel rhan o'r 'ymgyrch Dyma yw Peirianeg Sifil'. Wrth ddadorchuddio baner ar y safle, dywedodd, "Mae hwn yn brosiect gwych sy'n cynnig manteision enfawr i'r gymuned – mae'n taflu goleuni ar beirianeg sifil a'i phwysigrwydd i gymdeithas, a dyma'n union yr hyn rydym yn ceisio ei ddangos drwy'r ymgyrch hon."

Fel rhan o'r prosiect, mae Odyn Galch restredig wedi'i hadfer ac mae gwaith ymchwilio archaeolegol wedi canfod pont gamlas guddiedig dros yr hen gamlas. Gobeithio y gellir sicrhau cyllid yn y dyfodol fel rhan o waith treftadaeth parhaus ar safle'r gwaith copr gyferbyn i adfer y strwythur



Uchod: Wyneb deheuol pont yr hen gamlas ddatguddiedig ger adeilad y labordy wrth fynedfa safle'r gwaith copr.

Golwg o'r ffordd gerbydau sy'n cael ei hadeiladu gyferbyn â wal y gamlas sy'n cael ei hadfer.



Llun o'r Odyn Galch a adferwyd yn ddiweddar



Adeilad wal gynnal i gynnal y ffordd gerbydau newydd



I gael mwy o wybodaeth am gynllun Ffordd Ddosbarthu'r Morfa, ewch i wefan prosiectau'r cyngor:

www.abertawe.gov.uk/fforddddosbarthurmorfa

